**Bwrdd Cyflawni**
***Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach***

**Cyd-hysbysiad 16 Medi 2021**

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Bwrdd Cyflawni *Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach* ar 16 Medi 2021. Cafodd y cyfarfod ei gadeirio gan Darren Hughes (Cyfarwyddwr Cydffederasiwn GIG Cymru). Roedd y cyfarfod yn nodi blwyddyn ers i'r Bwrdd gael ei sefydlu.

Prif ffocws y cyfarfod oedd myfyrio ar lwyddiannau'r Bwrdd/y proffesiwn dros y 12 mis diwethaf, nodi pa gymorth ychwanegol oedd ei angen er mwyn cyflawni amcanion 2022 ac ystyried ein nodau posibl ar gyfer y dyfodol.

Trafododd y Bwrdd y cynnydd sy'n cael ei wneud gan bob un o'r is-grwpiau sy'n cyfateb i bedair thema'r Weledigaeth Fferylliaeth. Cafwyd y newyddion diweddaraf gan gynrychiolwyr o bobl un o'r is-grwpiau (Gwella Profiad Cleifion, Datblygu'r Gweithlu Fferylliaeth, Gofal Fferyllol Di-dor, Manteisio ar Arloesi a Thechnoleg), gan ystyried yn benodol y canlynol:

- Beth sydd wedi mynd yn dda?
- Beth allwn ni ei wneud dros y 12 mis nesaf i sicrhau ein bod yn cyflawni ein nodau?
- Beth all y Bwrdd wneud i helpu?

Roedd yn bleser gan y Bwrdd weld faint o waith sydd wedi'i wneud dros y 12 mis diwethaf. Mae cynnydd mawr wedi'i wneud ym mhob un o'r pedwar maes sy'n cefnogi uchelgais y Bwrdd ar gyfer y proffesiwn i gyflawni'r nodau yn Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach – herio'r status quo ac ysgogi cynnydd.

Cydnabu pawb yr ymgysylltu oedd wedi digwydd rhwng is-grwpiau a bod pawb wedi hyrwyddo gwaith ei gilydd. Nododd y Cadeirydd Darren Hughes ei fod yn gwerthfawrogi ymrwymiad aelodau'r Bwrdd i ysgogi newid. Cytunodd aelodau y bydd sicrhau bod Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iach yn fwy amlwg yn helpu i gadw'r agenda yn flaenllaw yn y proffesiwn, ac yn ogystal, rhaid inni geisio cynnwys aelodau eraill o'r maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol y tu hwnt i fferylliaeth.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Bwrdd drafod y canlynol yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd (11 Tachwedd 2021), fel rhan o'i gamau nesaf / edrych i'r dyfodol:

- Edrych eto ar nodau interim ar gyfer y dyfodol a phennu nodau newydd
- Ystyried ymgysylltu yn y dyfodol â'r proffesiwn ehangach, cydweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ogystal ag aelodau'r cyhoedd, i lywio'r nodau hyn ar gyfer y dyfodol
- Edrych ar aelodau'r Bwrdd Cyflawni

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd Cyflawni *Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach*
***ddydd Iau 11 Tachwedd 2021 0930-1100.***

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, mae croeso ichi gysylltu â ni:
Pharmacy.DeliveryBoard@llyw.cymru